

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLWYDCOED

Cofnodion o gyfarfod Cyd-bwyllgor Amlogfa Llwydcoed a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Merthyr Tudful brynhawn Mawrth, 20 Mawrth 2018 am 2pm.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

L. Colbran, J. Thomas, D. Isaac a D. Chaplin

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

H. Boggis, (Mrs) A. Crimmings, A. S. Fox and G. Jones

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms. J. Lewis – Rheolwr Gwasanaethau Profedigaethau
Mr. S. Preddy – Cyfrifydd Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned
Mrs L. Coughlan – Cyfreithiwr

17 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol K. Morgan (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf).

18 DATGAN BUDDIANT

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

19 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion o gyfarfod Cyd-bwyllgor Amlogfa Llwydcoed a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2017.

ADRODDIAD RHEOLWR Y GWASANAETHAU PROFEDIGAETHAU

20 Rhoddodd y Rheolwr Mynwentydd Cynorthwyol drosolwg i'r Aelodau o'r Memorandwm Dealltwriaeth ynglŷn â mabwysiadu dull teg a chyson i'r ffioedd sy'n cael eu codi gan Lywodraeth leol ledled Cymru am gladdu ac amloggi plant o dan 18 oed.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** –

(1) Bod y Cyd-bwyllgor yn mabwysiadu gweithrediad y Memorandwm Dealltwriaeth yn ffurfiol, o ran dull teg cyson ledled Cymru, at y ffioedd sy'n

cael eu codi gan Lywodraeth leol ar gyfer claddu ac amlosgi plant hyd at 18 oed.

(2) Bod hyn yn cael ei weithredu o 18 Ionawr 2018.

21 YSTADEGAU

Yn ei adroddiad, rhoddodd Rheolwr Cynorthwyol y Fynwent ystadegau a ffigurau cyflawniad i'r Aelodau sy'n ymwneud â gweithrediad yr Amlosgfa ers y cyfarfod diwethaf ac yn dilyn ystyried yr eitemau hynny, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR GWASANAETH – IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A'R GYMUNED

22 FFŪOEDD A THALIADAU AR GYFER AMLOSGI A FFŪOEDD A THALIADAU ATODOL 2018-19

Yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, cyflwynodd Rheolwr Cynorthwyol y Fynwent yr adroddiad sy'n nodi manylion y ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer 2018/19.

Cynigiwyd cynyddu ffioedd a thaliadau ar gyfer amlosgi a'r holl ffioedd a thaliadau atodol o 2.95%. Darparwyd cymhariaeth o'r ffioedd presennol a'r ffioedd arfaethedig.

Nododd yr Aelodau nad oedd hi'n bosibl canfod cynnydd yn ffioedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ar gyfer 2018-19. Serch hynny, ystyriwyd bod y cynnydd a oedd yn cael ei gynnig yn rhesymol, a phe bai'n cael ei gymeradwyo, byddai'n cynnal sefyllfa debyg i awdurdodau lleol eraill.

Trafododd yr Aelodau yr argymhellion sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad i weithredu cynllun peilot 12 mis mewn perthynas â ffioedd profedigaeth ar gyfer cyn-aelodau o'r lluoedd arfog. Yn dilyn trafodaethau, cytunodd yr Aelodau i ohirio'r argymhelliad gan fod aelodau'n dymuno trafod hyn gyda'r Cabinet yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful cyn y byddai modd cymeradwyo penderfyniad i'r Cyd-bwyllgor.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** –

- (1) Bod y Cydbwyllgor yn cymeradwyo'r ffioedd diwygiedig ar gyfer amlosgi a'r holl ffioedd a thaliadau atodol.
- (2) I ohirio gweithredu'r cynllun peilot 12 mis mewn perthynas â ffioedd profedigaeth ar gyfer cyn-aelodau o'r lluoedd arfog tan y cyfarfod nesaf o'r Cyd-bwyllgor ac yn dilyn trafodaethau gyda'r Cabinet yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

ADRODDIAD Y CLERC

23 AMSERLEN O GYFARFODYDD

Cafodd aelodau gais i drafod yr amserlen arfaethedig o gyfarfodydd chwarterol y Cyd-bwyllgor ar gyfer blwyddyn 2018-19 y Cyngor.

Nododd aelodau y cynnig i gynnal pob cyfarfod yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Cododd Aelod ymholiad gyda Swyddogion ynghylch a oedd modd cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol yn Amlogfa Llwydcoed. Mewn ymateb, cafodd yr Aelod ei hysbysu y byddai hyn yn cael ei adolygu yn y dyfodol.

Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r calendr o gyfarfodydd ar gyfer blwyddyn 2018-19 y Cyngor.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD

24 ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB AR GYFER 2017-18 AC AMCANGYFRIFON REFENIW DRAFFT AR GYFER 2018-19

Cyflwynodd y Cyfrifydd Grŵp, Gwasanaethau'r Gymuned yr adroddiad, a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar sefyllfa Monitro Cyllideb 2017/18 ac Amcangyfrifon Refeniw Drafft ar gyfer 2018/19.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** –

(1) Nodi sefyllfa monitro cyllideb 2017-18.

(2) Cymeradwyo'r Amcangyfrifon Refeniw drafft ar gyfer 2018-19.

25 MATERION ERAILL

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, cododd Aelod ymholiad gyda Swyddogion ynghylch a fyddai unrhyw waith pellach yn cael ei wneud yn Amlogfa Llwydcoed mewn perthynas â'r gwaith adferol ategol blaenorol.

Mewn ymateb, cafodd yr Aelod ei hysbysu bod y gwaith yn cael ei ystyried yn gyflawn, fodd bynnag, byddai hyn yn cael sylw yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd i ymweliad gael ei drefnu i Aelodau'r Pwyllgor ymweld ag Amlogfa Llwydcoed a'r ardd goffa. Yn dilyn trafodaethau, cafodd ei gytuno y dylai trefniadau gael eu gwneud i Aelodau o'r Pwyllgor ymweld â'r safle rhywbryd yn y dyfodol agos.

**D. ISAAC
CADEIRYDD**

Daeth y cyfarfod i ben am 14.16.